

Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw Person Ifanc i Greu Newid

Gwybodaeth i Oedolion sy'n Cefnogi

Bydd y ddogfen yma'n helpu **athrawon, arweinwyr grwpiau cymunedol, gweithwyr ieuenctid ac oedolion eraill cefnogol** i helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio Gwneud Gwahaniaeth.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut bydd hyn yn cefnogi dysgu, y cysylltiadau â Chwricwlwm newydd Cymru, a sut mae'r gweithgareddau yma'n grymuso plant a phobl ifanc i brofi eu hawliau dynol, fel maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae rhagor o wybodaeth am CCUHP [ar ein gwefan](#), yn ogystal â rhagor o adnoddau dysgu i gefnogi hawliau plant.

Beth yw'r adnodd Gwneud Gwahaniaeth ac ar gyfer pwy mae e?

Adnodd ar-lein yw Gwneud Gwahaniaeth, ac mae'n cynnwys fideos, gweithgareddau, templedi a gwybodaeth. Mae'n cynnig syniadau ac ysbrydoliaeth, a strwythur ar gyfer cynnal gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio i gymryd camau gwybodus fel dinasyddion moesegol. Bydd yn helpu grwpiau sydd eisoes yn bodoli, fel **cyngorau ysgol, grwpiau llais y disgybl** neu **grwpiau cymunedol**. Bydd hefyd yn helpu plant a phobl ifanc i gychwyn grŵp newydd os ydyn nhw am gyflawni newid.

Mae gwahanol adrannau i dudalen Gwneud Gwahaniaeth ar y we, ac mae pob un yn cynnwys dolenni i adnoddau wedi'u gwahaniaethu:

- **"Gweithgareddau i bawb"** yw gweithgareddau neu wybodaeth sy'n cynnwys llai o destun a mwy o strwythur. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys symbolau i helpu'r cyfathrebu. Gall y gweithgareddau yma fod yn addas i blant mewn ysgolion cynradd neu grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i gynnal dysgwyr hŷn, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn helpu cyngorau ysgol a grwpiau cyfranogiad cymunedol eraill.



- Mae “**Gweithgareddau estyn**” yn defnyddio mwy o destun, ac yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl a llai o strwythur cynnal ar gyfer gweithgareddau. Efallai bydd yr adnoddau yma’n addas ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau ysgol uwchradd, lleoliadau Addysg Bellach, neu grwpiau cyfranogiad a grwpiau cymunedol i bobl ifanc. Byddan nhw’n helpu cynghorau ysgol uwchradd a grwpiau eraill llais y disgybl mewn ysgolion uwchradd.

Hefyd gallwch chi **lawrlwytho pdf** o’r holl weithgareddau a gwybodaeth ar bapur. Bydd hyn yn cynnwys y gweithgareddau i bawb a’r gweithgareddau estyn.

Sut mae defnyddio Gwneud Gwahaniaeth

Mae’r canllaw yma’n helpu plant a phobl ifanc ymgyrchu dros newid. Dyw e ddim yn dweud wrth blant a phobl ifanc **dros beth** dylen nhw ymgyrchu. Mae hynny’n golygu bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio’r gweithgareddau ar gyfer unrhyw fater sy’n bwysig iddyn nhw; gallai fod yn newid maen nhw eisiau ei weld yn eu hysgol neu eu cymuned, gallai hefyd fod yn fater cenedlaethol neu fyd-eang.

Gall pobl ifanc a’r oedolion sy’n eu cefnogi ddefnyddio unrhyw ran o’r adnodd sydd o ddefnydd iddyn nhw. Gallwch chi ddewis y gweithgareddau fydd yn gweithio orau i’ch grŵp chi.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP)

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau dynol, sy’n cael eu cyflwyno yn CCUHP. Mae poster sy’n dangos holl [hawliau plant yma](#). Un o brif egwyddorion hawliau dynol plant yw hawl pob plentyn i gyfranogiad. Mae cyfranogiad yn golygu bod plant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau (Erthygl 12), bod ganddyn nhw hawl i fynegi barn (Erthygl 13) a chael gwybodaeth (Erthygl 17) ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ymuno â grwpiau heddychol ac ymlacio a chwarae (Erthyglau 14, 15, 31). Mae gweithredu gwybodus o blaid newid fel dinesydd moesegol hefyd yn cefnogi hawliau plant i gael addysg (Erthygl 28) ac i ddatblygu eu sgiliau’n llawn (Erthygl 29).

Cwricwlwm i Gymru 2022

Mae’r canllaw hwn yn cefnogi dysgu’r cwricwlwm, ac mae’n gallu cael ei ddefnyddio wrth gyflwyno’r cwricwlwm. Mae hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer amser tiwtor bugeilio ac mewn lleoliadau tu allan i’r ysgol i ddatblygu dysgu ar draws gwahanol gyd-destunau. Mae’n datblygu dysgu ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn arbennig y Dyniaethau a Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau



trawsgwricwlaidd, yn arbennig Llythrennedd, Cymhwysedd Digidol a Meddwl yn Feirniadol. Yn unol â'r Pedwar Diben, mae'r canllaw yma wedi cael ei lunio'n benodol i alluogi plant a phobl ifanc a'u paratoi i fod yn

Ddinasyddion Moesegol, Gwybodus sy'n:

- › ymgysylltu â materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- › deall ac ymarfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- › deall ac ystyried effaith y camau maen nhw'n eu cymryd wrth wneud dewisiadau a gweithredu
- › parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae'r adnoddau, y gweithgareddau a'r syniadau yn y canllaw yn ddelfrydol i bobl ifanc eu defnyddio i gefnogi tystysgrif her sgiliau Bagloriaeth Cymru. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i gefnogi'r datblygu sgiliau sy'n ofynnol yn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang a'r Her Gymunedol.

Llesiant

Mae ymchwil yn dangos bod cymryd camau cadarnhaol i greu newidiadau¹ yn gwella llesiant a iechyd meddwl pobl ifanc, fel y mae perthyn i grŵp actifyddiaeth ieuencid². Mae actifyddiaeth pobl ifanc yn mynd y tu hwnt i weithgareddau codi arian, ac yn cynnwys galluogi pobl ifanc i gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniadau a chymryd camau i greu newid mewn sefydliadau, cymunedau neu gyd-destunau eraill lleol a byd-eang. Gall cefnogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn y ffordd hon fod yn elfen bwysig o ddull gweithredu ysgol gyfan o ymdrin â llesiant. Trwy'r canllaw rydyn ni'n amlygu sut gall pobl ifanc a hefyd yr oedolion o'u cwmpas gynnal eu llesiant, a sut mae dathlu llwyddiannau hyd yn oed os na fydd ymgyrch yn llwyddo. Ar hyd y canllaw rydyn ni hefyd wedi dangos ble bydd angen i blant a phobl ifanc geisio cefnogaeth oedolyn maen nhw'n trystio ar gyfer gweithgareddau.

¹https://www.researchgate.net/publication/320346402_Exploring_the_Role_of_Engagement_on_Well-Being_and_Personal_Development_A_Review_of_Adolescent_and_Mental_Health_Activism

² <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1002/jcop.219>



